**Eitem ar yr Agenda: 3**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd Ddydd Llun 16eg Mehefin 2008 yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Cychwynnodd y cyfarfod am 11.40 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn Cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| S Frobisher (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R D Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A D Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| B L Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R M Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Hanks (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Sicrwydd Gweithredol); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Adnoddau); R Simmons (Prif Swyddog Cynorthwyol, Sefydliadol a Threfnu Pobl); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Rheolwr Datblygu a Hyfforddiant); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy); D Mottram (Rheolwr Cefnogi Gweithredol) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| G Hardcastle | Cyngor Sir y Fflint |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| N Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**2) Rhybudd o Faterion Brys**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi cael eu cyflwyno i'r Clerc er ystyriaeth.

**3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

i. Llongyfarchwyd nifer o aelodau am gael eu hapwyntio i swyddi dinesig amrywiol a swyddi eraill o fewn eu cynghorau cyfansoddol ac ar gyrff eraill y gwasanaethant arnynt; a
ii. Llongyfarchwyd Mr Ian David Bithell, Rheolwr Gwylfa'r System Rhan Amser yng Ngorsaf Dân Wrecsam ar dderbyn MBE am ei wasanaethau i lywodraeth leol a'r gymuned yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines.

Fe hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau fod un o gerbydau'r Gwasanaeth wedi cael damwain wrth ymateb i wrthdrawiad traffig ar y ffordd yn ardal Aberdyfi'r diwrnod blaenorol. Roedd dau aelod o'r Gwasanaeth wedi eu cludo i'r ysbyty ond wedi eu rhyddhau yn ddiweddarach. Fe ddywedodd fod archwiliad ar y cyd rhwng y Gwasanaeth a Heddlu Gogledd Cymru ar fynd i ddarganfod achos y ddamwain. Fe ymunodd aelodau y swyddogion wrth anfon eu dymuniadau gorau am adferiad llawn a chyflym i'r rhai oedd yn y ddamwain.

**4) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub gynhaliwyd ar 17eg Mawrth 2008

***Penderfyniad:*** ***- cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodion.***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol i ddibenion gwybodaeth:

ii. Cyfarfod o'r Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 6ed Mawrth 2008

## 5) Materion yn Codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd.

## 6) Dyddiadur y Cadeirydd

Fe gyflwynodd y Cadeirydd adroddiad y Swyddog Cyswllt Aelodau (ddosbarthwyd yn y cyfarfod) oedd yn manylu'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd yn ystod y cyfnod o'r 18fed Mawrth 2008 nes dyddiad etholiadau'r awdurdodau lleol ar 1af Mai 2008. Eglurodd ei bod hi'n bwysig fod aelodau yn ymwybodol o waith y Cadeirydd ar ran yr Awdurdod a'r digwyddiadau a fynychwyd.. Fe gytunodd y Cynghorydd M Ll Davies gyda barnau'r Cadeirydd a gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno adroddiad byr i'r aelodau gyda gwybodaeth ar gynnwys seminarau a chynadleddau pwysig fynychwyd, megis y seminar diweddar ar "Ddeddf Lladdiad a Dynladdiad Corfforaethol 2007". Fe gytunodd y Cadeirydd gyda'r cais. Cynghorwyd aelodau fod y Cyd Gyngor Cenedlaethol i Wasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol wedi cytuno gyda dyfarniad cyflog 2.45% i ddiffoddwyr tân yr wythnos flaenorol, yn daladwy o 1af Gorffennaf 2008.

***Penderfynwyd:*** ***- nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a bod y Cadeirydd yn cyflwyno crynodebau byr i aelodau o'r wybodaeth a dderbynnir mewn rhai seminarau a chynadleddau yn y dyfodol***

## 7) Asesiad Risg ar y Cyd

Croesawodd y Cadeirydd Mr Rob Powell, Rheolwr Cysylltiadau, Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno darganfyddiadau'r Asesiad Risg ar y Cyd i'r aelodau. Cyn cychwyn ei gyflwyniad, fe ddywedodd Mr Powell ei fod yn gweithio fel Rheolwr Cysylltiadau Swyddfa Archwilio Cymru gyda'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru ac felly roedd mewn sefyllfa dda i rannu arferion da gyda phob awdurdod. Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, fe eglurodd Mr Powell gynnwys ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw). Fe ddisgrifiodd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a sut mae'r Asesiad Risg ar y Cyd yn cyfrannu at y Cynllun Gwella Blynyddol a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg, y Cynllun Rheoleiddio a sut mae'r canlyniadau a'r broses yn cael eu monitro ac adolygu'n barhaol.

Fe eglurodd Mr Powell fod Asesiad Risg ar y Cyd eleni wedi canolbwyntio ar ddwy agwedd o waith yr Awdurdod. Roedd yr asesiad risg gweithredol

ymgrymwyd ag ef gan y Tîm Asesu Cymheiriaid wedi canolbwyntio ar barodrwydd yr Awdurdod mewn digwyddiadau mawr, megis llifogydd, tra bod Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am yr asesiad anweithredol ac wedi edrych ar y strwythurau oedd yn eu lle i gefnogi'r cyflwyniad o flaenoriaethau'r Awdurdod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr asesiad gweithredol wedi nodi cynnydd a gwelliannau mewn nifer o ardaloedd. Roedd wedi amlygu'r risgiau allweddol mewn perthynas â'r nifer uchel o farwolaethau tân, dadansoddiad risg, amodau llifeiriant a pholisïau gweithredol hefyd. Roedd rhai ardaloedd o risg arwyddocaol wedi dod i'r golwg hefyd yn ystod cwrs yr asesiad anweithredol, oedd wedi eu canoli o gwmpas yr angen i ddatblygu a chyflwyno cyfeiriad clir i gyfeirio at yr heriau gweithredol, ariannol a trefniadol oedd yr Awdurdod yn debygol o wynebu dros y blynyddoedd i ddod. Roedd asesiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad fod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd mewn nifer o ardaloedd anweithredol gan gynnwys cyfathrebiadau, cysylltiadau cyhoeddus, gweithio mewn partneriaeth, paratoi ar gyfer achrediad Breinlen Aelodau, rheoli perfformiad, iechyd corfforaethol a thuag at achrediad o dan y cynllun amgylcheddol 'Y Ddraig Werdd'. Roedd yr asesiad wedi dod i'r casgliad fod gan yr Awdurdod le i wella mewn perthynas ag ymgysylltu aelodau ac archwilio a gyda chynlluniau i gefnogi ei weledigaeth gyfan. Fe gynghorodd Mr Powell yr aelodau fod copi o'r Templed Asesiad Risg ar gael ar gais.

Ar y mater o wybodaeth gweithredol, mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M Ll Davies, fe gynghorodd y Prif Swyddog Tân fod y Gwasanaeth yn ymwybodol o'r mathau o ddeunydd peryglus oedd yn cael ei storio yn y mwyafrif o safleoedd diwydiannol ond mai eiddo domestig, yn enwedig modurdai a gweithdai preifat oedd yn achosi'r mwyaf o bryder i'r Gwasanaeth. Doedd dim ffordd o wybod pa fathau, neu faint o ddeunydd peryglus oedd yn cael eu storio yn y mathau yma o eiddo. Roedd y tri gwasanaeth tân ac achub Cymreig yn gweithio gyda swyddogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i geisio cyfeirio at y broblem hon.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad***

**8) Adolygiad o Drefniadau Craffu o fewn Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Fe gyflwynodd Mr Rob Powell adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn cyflwyno nifer o argymhellion i aelodau yn dilyn adolygiad diweddar o drefniadau craffu o fewn awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Ynghyd â'r adroddiad ar ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru mewn cysylltiad ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fe gyflwynodd Mr Powell adroddiad arfer da Swyddfa Archwilio Cymru ar graffu ac ymgysylltu gydag aelodau yn y tri awdurdod tân ac achub Cymreig. Roedd copïau o'r ddau adroddiad wedi

cael eu dosbarthu i aelodau o flaen llaw. Fe eglurodd Mr Powell fod Asesiad Risg ar y Cyd wedi amlygu'r ffaith nad oedd trefniadau llywodraethu mewnol yr Awdurdod Tân ac Achub yn adlewyrchu trefniadau eu hawdurdodau cyfansoddol. Felly, gyda chaniatâd y swyddogion, roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymgymryd ag astudiaeth o drefniadau llywodraethu'r holl awdurdodau tân ac achub Cymreig. Ar ôl astudio'r trefniadau yn y tri awdurdod, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r farn fod pob awdurdod wedi teilwra ei ymagwedd unigol ei hunan at graffu mewnol ac ymgysylltiad aelodau. Tra bod ymagweddau eraill i'w canmol, fe ddylai egwyddorion llywodraethu da a chraffu gwneud penderfyniadau aros yr un fath ar draws yr holl awdurdodau, os ydynt yn awdurdodau tân ac achub neu awdurdodau lleol.

Fel rhan o'r adolygiad, roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi dosbarthu holiadur i bob aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r Prif Swyddogion. Tra bod yr holl Brif Swyddogion wedi ymateb i'r holiadur, roedd y nifer o ymatebion a dderbyniwyd gan aelodau yn siomedig iawn ac felly, roedd barnau'r aelodau wedi eu cymryd o'r rhai hynny oedd wedi cymryd rhan y grŵp ffocws. Fe gynghorodd Mr Powell fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r canlyniad fod diffyg eglurdeb mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ac felly, roedd angen clir i sefydlu trefniadau craffu ar wahân. Gallai'r trefniadau yma gymryd ffurf pwyllgor archwilio, ac ni ddylai'r aelodau fod yn aelodau sy'n gwasanaethu ar y Panel Gweithredol. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn argymell fod yr Awdurdod yn ymgymryd ag adolygiad cyfansoddol sylfaenol ac roedd Mr Powell yn falch gyda phenderfyniad yr Awdurdod yn ystod y Cyfarfod Blynyddol yn gynharach y diwrnod hwnnw i symud ymlaen gydag adolygiad o'r math hwnnw.

Hysbysodd Mr Powell yr Awdurdod fod cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru am annerch aelodau yng Nghynhadledd Aelodau o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru Gyfan ar 15fed Medi 2008 ar y pwnc o Ymgysylltu Aelodau a Chraffu.

Gan ymateb i gwestiynau, fe gadarnhaodd Mr Powell y gallai'r Awdurdod fanteisio o brofiad craffu awdurdodau lleol neu alw am gymorth awdurdodau lleol wrth graffu rhai polisïau neu swyddogaethau. Fe gynghorodd y Clerc yr Awdurdod ei fod yn cefnogi'r cysyniad o graffu, yn enwedig sefydlu pwyllgor archwilio ac y dylai fod yn drefniant craffu effeithiol allai fod yn ymestyniad o rôl pwyllgor archwilio ac/neu grwpiau gorchwyl a gorffen wedi eu hapwyntio.

***<u>Penderfynwyd</u>: - ystyried***

i. ***Adolygu maint, gweithrediad a chyfansoddiad y Panel Gweithredol;***
ii. ***Datblygu Pwyllgor Archwilio ar wahân fyddai'n cynnwys yr aelodau hynny nad ydynt yn aelodau o'r Panel Gweithredol;***
iii. ***Credu grwpiau 'Gorchwyl a Gorffen' i archwilio materion/penderfyniadau penodol lle gallai eu haelodau un ai***

***adrodd yn ôl i'r Panel Gweithredol neu'r Awdurdod Tân ac Achub yn uniongyrchol, a***

***iv. Pa unai os allai'r Awdurdod Tân ac Achub alw am gefnogaeth craffu awdurdodau lleol lle'n briodol***

**9) Cymeradwyo Cynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg Drafft 2009/10 am Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) ei hadroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn cyflwyno Cynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg Drafft 2009/10 i'r aelodau. Fe eglurodd fod swyddogion yn edrych am gymeradwyaeth aelodau i ymgynghori gyda'r cyhoedd ar gynigion y Cynllun. Fe gynghorodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau, oherwydd gofyniad statudol i ddatblygu Cynllun Lleihau Risg o fewn amserlen osodedig, fod yr Awdurdod blaenorol wedi cymryd y penderfyniad i ddatblygu'r cynigion cyn etholiadau'r awdurdod lleol oherwydd byddai gan yr Awdurdod 'newydd' y dasg o gychwyn a datblygu cynigion ar gyfer y Cynllun drafft o fewn amser cyfyngedig iawn. Yna, manylodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) y pedwar cynnig oedd yn y Cynllun Gweithredu drafft.

12.20pm: Ymunodd y Cynghorydd W P Roberts y cyfarfod yn y man hwn

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe gynghorodd y swyddogion mai'r bwriad tu ôl i'r cynnig cyntaf oedd nid gostwng y nifer o swyddogion gweithredol, ond gwneud defnydd mwy effeithiol o'u hamser ac arbenigedd. Roedd yr Awdurdod blaenorol wedi penderfynu nad oedd dull y Gwasanaeth o griwio ei beiriannau arbennig yn gost effeithiol ac, yn hytrach na 'cholli' 12 o swyddi gweithredol a'u newid gyda nifer o staff cefnogi llywodraeth leol angenrheidiol i gyflwyno dyhead yr Awdurdod o 30k o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref am ddim y flwyddyn, byddai'n well trosglwyddo'r personél gweithredol yma i'r tîm Diogelwch Tân Cymunedol i gynorthwyo gyda'r cyflwyniad o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Er y byddai'r personél yma'n perfformio gweithredoedd anweithredol, byddai eu cymwyseddau gweithredol yn cael eu cynnal er mwyn gallu galw am eu cymorth yn ystod cyfnodau prysur neu amodau llifeiriant. Rhoddodd Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu'r Gwasanaeth sicrwydd i aelodau fod y camau angenrheidiol wedi eu cymryd i sicrhau fod nifer benodol o bersonél yn y gorsafoedd hynny lle'r oedd peiriannau arbennig wedi eu lleoli gyda'r hyfforddiant angenrheidiol i weithredu'r peiriannau yma. Fe ofynnodd yr aelodau am daflen Cwestiynau Cyffredin (FAQ) ac i fod ar gael i'r cyhoedd gyda'r Cynllun Gweithredu drafft am ymgynghoriad y cyhoedd. Yn ei farn ef, roedd y cynigion yma'n gysylltiedig â phenderfyniadau gweithredol ddylid eu hymddiried i'r swyddogion yn ôl eu gwybodaeth a'u barn broffesiynol eu hunain, yn hytrach na'r penderfyniadau strategol ddylid eu cymryd gan aelodau.

12.25pm: Gadawodd y Cynghorydd M Griffith y cyfarfod yn y man hwn

Awgrymodd y Cynghorydd E C George, oherwydd y gwaith roedd cynnig 4 yn ei golygu, ddylai'r Awdurdod ystyried cychwyn gyda'r gwaith paratoi ar unwaith.  Cytunodd yr aelodau gyda'r awgrymiad hwn.

***Penderfynwyd:*** **-**

***i. Nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft 2009/10 am ymgynghoriad cyhoeddus;***
***ii. Fod rhestr o Gwestiynau Cyffredin yn cael eu paratoi ac i fod ar gael i'r cyhoedd law yn llaw gyda'r Cynllun Gweithredu drafft;***
***iii. fod gwaith paratoi ar gyfer cynnig 4 yn cychwyn ar unwaith; a***
***iv. symud ymlaen i gychwyn trafodaeth anffurfiol ar y cynigion drwy swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cyfamser***

**10) Ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol Drafft 2008/11**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) yn edrych am gymeradwyaeth yr aelodau am lythyr o ymateb, roedd drafft ynghlwm, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol ar y Fframwaith Cenedlaethol Drafft i Wasanaethau Tân ac Achub 2008-2011.  Eglurodd fod y ddogfen Fframwaith wedi codi nifer o faterion a phryderon, oedd wedi eu hamlygu yn yr ymateb drafft a gyflwynwyd i aelodau.  Aeth y Prif Swyddog Tân ati i hysbysu'r aelodau fod swyddogion wedi cysylltu'n agos gyda'u cymheiriaid mewn awdurdodau tân ac achub eraill gyda golwg ar sicrhau fod y tri awdurdod yn codi materion tebyg ac mewn ymdrech i bwysleisio'r pryderon eang mewn cysylltiad â chynigon arbennig. Llongyfarchodd y Cynghorydd M Ll Davies y swyddogion ar ymateb manwl, wedi ei ddrafftio'n dda.

***Penderfynwyd: - cefnogi llythyr o ymateb i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol Drafft 2008/11 fel y drafftiwyd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru***

**11) Datganiad Cyfrifon Drafft 2007/08**

Fe gyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) yn edrych i'r aelodau, yn unol gyda darpariaethau Rheoliadau Cyfrifol ac Archwilio (Cymru) 2005, gymeradwyo Datganiad o Gyfrifon drafft Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer 2007-08.  Diolchodd i Gyfrifydd yr Awdurdod am baratoi'r cyfrifon at ddyddiad cau tynn iawn ac fe gynghorodd aelodau, gan aros am unrhyw newidiadau fyddai archwilwyr yr Awdurdod yn gofyn amdanynt, byddai cyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno am gymeradwyaeth cyn diwedd mis Medi 2008.  Yn y gorffennol, roedd archwilwyr wedi gofyn am wneud ychydig o newidiadau cyflwyniadol nad oedd yn newid y cyfrifon cyffredinol mewn unrhyw ffordd.

Aeth y Trysorydd ymlaen i fanylu cynnwys y Datganiad o Gyfrifon a chynghori fod yr Awdurdod wedi cofnodi tanwariant o £6,377 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Y prif reswm dros hyn oedd y cynhyrchiad o incwm oherwydd cyfraddau llog uwch ar fuddsoddiadau ac incwm ychwanegol yn cael ei dderbyn ar Gynllunio mewn Argyfwng. Roedd y ffynonellau yma o incwm ychwanegol wedi bod yn ddefnyddiol i ariannu gorwariant mewn ardaloedd eraill o gyllideb y Gwasanaeth.

12.50yp: Ymunodd y Cynghorydd A D Tansley y cyfarfod yn y man hwn

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe gynghorodd y Trysorydd, yn dilyn cyflwyniad Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007 a sefydlu Cyfrif Cronfa Bensiwn ynghyd â'r ffaith fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu unrhyw ddiffygion rhwng cyfraniadau a dderbyniwyd a'r buddion oedd yn daladwy, nid oedd Safon Adrodd Ariannol (FRS) 17 yn bryder i'r Awdurdod mwyach fel oedd wedi bod yn y gorffennol. Mewn perthynas â'r stoc oedd yn cael ei ddal, fe ddywedodd y Prif Swyddog Tân fod yr Awdurdod, mewn ymgais i sylweddoli effeithiolrwydd, wedi gostwng y stoc oedd yn dal. Gan ymateb i gwestiynau eraill, hysbysodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr aelodau fod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at ostyngiad yn y gwariant ar gyhoeddusrwydd yn ystod 2007/08 nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys gostyngiad yn y nifer o swyddi gwag oedd angen hysbysebion yn y wasg a'r ffaith fod yr holl ddatganiadau i'r wasg yn cynnwys y rhif ffôn rhadffôn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref am ddim ac felly yn golygu llai o wario ar hysbysebu'r gwasanaeth. Hefyd, roedd cyhoeddiad adroddiad Grwp Gorchwyl y Prif Swyddog yn 2006/07 wedi golygu costau ychwanegol. Fe gadarnhaodd y Prif Swyddog Tân i aelodau fod y nifer o gerbydau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth wedi codi o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd hyn oherwydd y dull oedd yr Awdurdod yn cyflwyno ei wasanaethau i'r gymuned yn bennaf. Gan fod yr awdurdod eisiau cyflwyno 30k o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref y flwyddyn ar draws Gogledd Cymru, roedd hyn yn golygu mwy o gerbydau i gyflwyno'r gwasanaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E C George, fe ddywedodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) nad oedd dim darpariaeth wedi ei osod am geisiadau cyflog cyfartal gan staff llywodraeth leol, er bod yr awdurdod i ystyried ymarfer sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd yn gysylltiedig gydag gwerthuso, dylid gwneud rhywbeth yn rheolaidd. Roedd cyrff cynrychioli'r staff wedi cytuno fod unrhyw newidiadau i raddfa swyddi, yn dilyn yr ymarfer gwerthusiad yn effeithiol o 1af Ebrill 2009, gydag unrhyw staff oedd yn wynebu gostyngiad mewn cyflog yn derbyn amddiffyniad cyfog am dair blynedd. O fwyafrif:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn yn dirwyn i ben ar 31ain Mawrth 2008***

Gofynnodd y Cynghorydd J V Owen fod cofnod yn cael ei wneud o'r ffaith iddo atal rhag pleidleisio ar y cynnig uchod.

**12) Rheoli'r Trysorlys**

Yn unol gyda gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod, fe gyflwynodd y Trysorydd adroddiad blynyddol y trysorlys (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn manylu gweithgaredd trysorlys yr Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08. Eglurodd fod yr adroddiad, yn unol gyda gofynion y Cod Darbodus, yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus ar gyfer yr un cyfnod hefyd. Manylwyd cynnwys yr adroddiad i'r aelodau ac fe awgrymodd y Trysorydd nad oedd ganddo bryderon penodol am y ffigyrau ynddo. Fe gynghorodd aelodau, i ddibenion atynnu gwell cyfraddau o log mewn buddsoddiadau a benthyciadau, roedd arian yr Awdurdod yn cael ei roi gydag arian Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Oherwydd bod arian y ddau sefydliad yn ganfyddadwy, roedd archwilwyr yr Awdurdod wedi cymeradwyo'r arfer.

***Penderfynwyd*: -**

***i. Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus 2007-08; a***
***ii. Nodi cynnwys yr adroddiad ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2007-08***

**13) Adroddiad Blynyddol o Ddyledion Drwg gafodd eu Dileu**

Fe gyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu aelodau o'r dyledion drwg o dan £5k ddilëwyd rhwng 1af Ebrill 2007 a 31ain Mawrth 2008. Eglurodd gefndir yr adroddiad a bod cyfanswm o bum dyled o dan £5,000 wedi eu dileu yn ystod yr un cyfnod. Er dibenion eglurder, roedd manylion y dyledion yn atodiad yr adroddiad.
***Penderfynwyd* : - nodi cynnwys yr adroddiad**

**14) Cod Ymddygiad**

Fe gyflwynodd y Clerc ei adroddiad a chod ymddygiad model newydd i aelodau cyfetholedig i'r Awdurdod fel y cyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 21ain Ebrill 2008 (ddosbarthwyd o flaen llaw). Eglurodd ei fod yn edrych am i'r aelodau gymeradwyo'r cod ymddygiad model fel cod ymddygiad newydd yr Awdurdod, i gymryd lle'r hen god. Fe gynghorodd aelodau fod angen iddyn ymgyfarwyddo gyda gofynion y cod ac fe dynnodd eu sylw i baragraff 5 o'i adroddiad oedd yn amlygu'r cyfrifoldebau ychwanegol roddwyd ar aelodau o dan y cod newydd. Fe awgrymodd y Clerc, er mwyn osgoi dyblygiad, efallai eu bod yn dymuno arwyddo datganiad yn caniatáu eu cynghorau eu hunain i rannu'r diddordebau sydd ganddynt gyda'r Awdurdod Tân ac Achub. Fe atgoffodd aelodau yn y dyfodol byddai rhaid iddynt ddatgan diddordebau ychwanegol i'w awdurdodau eu hunain ac i'r Awdurdod Tân ac Achub o fewn 28 diwrnod o'u derbyn. Cynghorwyd Aelodau i gofio

datgan unrhyw ddiddordebau mewn cysylltiad â'r Awdurdod Tân ac Achub wrth wasanaethau ar eu hawdurdodau cartref. Byddai'r un egwyddor yn gymwys i aelodau mewn cysylltiad â datgan diddordebau'r cyngor wrth wasanaethu ar yr Awdurdod Tân ac Achub.

***Penderfynwyd: -***

***i. Mabwysiadu'r cod ymddygiad newydd i aelodau ac aelodau cyfetholedig a bod rhaid i'r holl aelodau arwyddo datganiad yn dweud y byddant yn dilyn y cod newydd;***
***ii. Fod aelodau yn arwyddo datganiad yn caniatáu eu hawdurdodau cartref i rannu unrhyw ddiddordebau sydd ganddynt gyda hwy gyda'r Awdurdod Tân ac Achub; a***
***iii. Fod y trothwy ar gyfer cofrestru unrhyw roddion, lletygarwch, deunydd materol neu fanteision yn cael ei osod ar £25***

## 15) Diwygiadau i Orchmynion Sefydlog

fe gyflwynodd y Clerc ei adroddiad ac atodiad (ddosbarthwyd o flaen llawn) oedd yn cyflwyno argymhellion mewn perthynas â diwygiadau i Orchmynion Sefydlog yr Awdurdod. Bwriad y diwygiadau oedd sicrhau fod Gorchmynion Sefydlog yr Awdurdod yn adlewyrchu newidiadau wnaed i gyfansoddiad y Pwyllgor Sefydlog ac unrhyw fân newidiadau eraill, diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaethau yn bennaf. Manylodd y Clerc gefndir y newidiadau ac eglurodd fod y diwygiadau wedi cael eu cynnig a'u heilio yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth, ac, yn unol gyda gofynion y Gorchmynion Sefydlog eu hunain, gohiriwyd y drafodaeth arnynt nes y cyfarfod presennol.

***Penderfynwyd: - cymeradwyo'r diwygiadau i'w Orchmynion Sefydlog fel y drafftir yn atodiad yr adroddiad***

## 16) Cyflwyniad ar Ffigyrau'r Ffurflen Flynyddol

Gohiriwyd yr eitem yma o fusnes nes cyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Hydref 2008.

## 17) Gwerthuso Swyddi

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) ei hadroddiad hi a'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Trefniadaeth a Datblygu Pobl) yn hysbysu aelodau o'r angen i ymgymryd ag ymarfer gwerthuso swyddi. Aeth ati i egluro byddai'r ymarfer hwn yn golygu gwerthuso holl swyddi personél y Gwasanaeth Tân ac Achub oedd yn cael eu cyflogi o dan Amodau Llyfr Gwyrdd y Gwasanaeth - staff cefnogi'r Gwasanaeth.

***Penderfynwyd:* - nodi'r rhesymau pam ei bod hi'n bwysig ymgymryd ag ymarfer gwerthuso swyddi ac y byddai unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu hadrodd i aelodau cynt gyned ag iddynt fod ar gael**

**18) Cyflwyniad ar Drefniadau Hyfforddi a Datblygu'r Awdurdod**

Gohiriwyd yr eitem yma o fusnes nes cyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Hydref 2008.

**19) Rhaglen Datblygu Aelodau 2008/09**

Fe gyflwynodd y Swyddog Cysylltu Aelodau ei hadroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu aelodau o'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r rhaglen datblygu aelodau ar gyfer 2008/09. Fe eglurodd, yn wahanol i'r wybodaeth yn yr adroddiad, byddai'r cyflwyniad ar Drefniadau Hyfforddi a Datblygu Aelodau yn cael eu cynnal ym mis Hydref, fel arall, roedd yr holl wybodaeth yn gywir. Fe ofynnodd y Cynghorydd M Ll Davies, yn ddibynnol ar y lleoliadau am gyfarfodydd llawn o'r Awdurdod, fod amser cychwyn a hyd y sesiynau hyfforddi cyn cyfarfodydd yr Awdurdod yn ystyried pellteroedd ac amser teithio i'r lleoliad:

***Penderfynwyd:* -**

***i. Cynnal sesiynau datblygu/hyfforddi aelodau cyn cyfarfodydd llawn o'r Awdurdod Tân ac Achub;***
***ii. Nodi a chymeradwyo'r rhaglen hyfforddi aelodau arfaethedig ar gyfer 2008/09 fel y disgrifir yn Atodiad 1 yr adroddiad; ac***
***iii. yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur anghenion hyfforddi, awdurdodi'r Gweithgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol i lunio Rhaglen Datblygu Aelodau***

**20) Cwynion a Llythyrau o Werthfawrogiad**

Fe gyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad blynyddol (ddosbarthwyd o flaen llaw) yn hysbysu a diweddaru aelodau o'r nifer o gwynion a mynegiannau o werthfawrogiad a dderbyniwyd gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2007 a Mawrth 2008. Eglurodd, er nad oedd yn ddymunol derbyn cwynion bob amser, roedd yn rhoi'r cyfle i'r Gwasanaeth edrych ar ddiffygion neu arferion drwg. Roedd yn gadarnhaol adrodd fod llai o gwynion wedi cael eu derbyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y ffaith fod y nifer o gwynion dderbynwyd a phrofwyd am yrru personol yn is na'r flwyddyn flaenorol ac efallai mai'r rheswm dros hyn oedd menter ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru am hyfforddi gyrwyr. Llongyfarchodd y Cynghorydd M Ll Davies y Gwasanaeth am y doreth o fynegiannau o werthfawrogiad dderbynwyd gan y Gwasanaeth ac fe ofynnodd fod aelodau yn derbyn hysbysiad o raglen Addysgwyr Diogelwch Tân Cymunedol ar gyfer 2008/09.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r nifer o gwynion a mynegiannau o werthfawrogiad dderbynwyd***

**21) Er Gwybodaeth**

Fe gyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y rhifyn diweddaraf o gylchgrawn Er Gwybodaeth i'r Awdurdod. Rhoddodd ganmoliaeth i'r Adran Cyfathrebiadau Corfforaethol am ei waith rhagorol ar y cyhoeddiad hwn ac fe bwysleisiodd, yn ogystal â thynnu sylw at waith personél ar ran y Gwasanaeth, roedd y cylchgrawn yn amlygu'r holl waith elusennol oedd yn digwydd yn yr ardal:

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn y cyhoeddiad***

**22) Materion Brys**

Dim.

Fe gafodd yr aelodau ginio am 1.20yp ac yna ailgynnull ar gyfer yr eitem olaf o fusnes am 1.50yp.

Fe hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau fod argymhelliad fod yr eitem o fusnes oedd yn weddill yn cael ei drafod heb bresenoldeb y cyhoedd na'r wasg:

***<u>Penderfynwyd:</u> - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leolt,1972 fod y Wasg a' Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem o fusnes canlynol oherwydd roedd yn debygol byddai gwybodaeth wedi'i eithrio yn cael ei ddatguddio iddynt fel a ddiffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Rhan i o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972***

**<u>RHAN II</u>**

Fe ddaeth y Cynghorydd Frobisher i'r gadair yn y man hwn ar gyfer yr eitemau oedd wedi eu heithrio i'r wasg a'r cyhoedd ac i glywed yr apêl.

Mae'r adroddiad canlynol wedi ei eithrio rhag datgeliad o dan baragraffau 12 i 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**23) Mater Personél**

Roedd aelodau wedi clywed apêl yn ymwneud â mater personol cyfrinachol. Yn unol gyda pholisi'r Awdurdod, dim ond yr aelodau hynny nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod lle cymerwyd y penderfyniad gwreiddiol oedd yn bresennol i glywed yr apêl. Ymgymerwyd â'r apêl yn unol â'r weithdrefn argymhellwyd gan y Clerc gyda'r aelodau yn derbyn copïau o'r holl ddogfennau perthnasol o flaen llawn. Roedd yr apelydd a'r gwrthapelydd yn bresennol i gyflwyno eu hachosion ac ateb cwestiynau'r aelodau. Ymgiliodd y

ddau o’r ystafell gyfarfod tra’r oedd yr aeloda yn trafod.  Yn dilyn trafodaeth drylwyr:

***<u>Penderfynwyd</u>: - ategu’r apêl.***

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30yp.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o’r trafodion.**

**Arwyddwyd:** **Dyddiedig:**